CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 30ain o Awst 2023 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Arfon Hughes, John P Roberts, Idris Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson**. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Rhys Davies, Sion Alun Roberts, Geraint Morgans a Lynne Mccrickett.

   Nodwyd ein cydymdeimlad gyda Lynne Mccrickett a oedd wedi colli ei thad yn ddiweddar.
   Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar yr 12fed o Orffennaf ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd nad oedd ymateb i law am y materion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Yng nghyswllt y pryderon am geir yn mynd yn gyflym tua Lawnt y Plas, roedd cadarhad o leoliad y mesurydd traffig wedi ei ddanfon. Nodwyd fod gwelliant ir llwybr o flaen tai yn Lawnt y Plas wedi ei gwbwlhau. Nodwyd hefyd ymateb llawn i'r materion Cefnffyrdd a godwyd yng nghyfarfod mis Mai. Diolchwyd i Catrin am osod arwyddion dros dro i leihau cyflymder traffig i'r Plas, ac y byddai rhai cymraeg yn cael eu rhoi yno yn fuan.

b) **Byrddau gwybodaeth/dehongli -** adroddwyd y diweddaraf gan y Cyng Catrin Johnson a oedd yn arwain ar hyn, ac y byddai'r cyfan wedi ei gwbwlhau erbyn y cyfafrod nesaf. Nodwyd eiriau caredig i Catrin am ei gwaith gyda hyn.

c) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy –** adroddodd y Clerc nad oedd unrhyw ddatblygiadau ers y cyfarfod diwethaf, a'I fod mewn cyswllt gyda David Flatley ar ran Ffrindiau Tydecho. Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Arfon Hughes fel aelod o Ffrindiau Tydecho, ac hefyd nododd Cyng John P Roberts ei fod yn rhan o'r grwp fel sylwebydd.

   Yng nghyswllt Eglwys Llanymawddwy, gofynnwyd beth oedd sefyllfa torri y gwair eleni, a gofynnwyd I'r Clerc gael gair yn gyffredinol gyda Tegid y contractor.

   Yn y cyswllt hyn hefyd, nododd y Clerc ei fod wedi derbyn rhubudd gan Hefin, sef contractor sy'n torri gwair mynwent y Dinas na fedrai ymgymryd a'r gwaith y flwyddyn nesaf, er y byddai yn fodlon helpu eto os oedd gwir angen. Penderfynwyd felly y byddai rhaid rhoi hysbyseb allan yn gwahodd tendrau ar gyfer torri 3 gwaith y flwyddyn, gan bwysleisio cyfrifoldeb am y flwyddyn gan

gynnwys man faterion cynnal a chadw. Nodwyd fod angen ychydig o welliant ar y ffens rhwng y llwybr a'r rhan newydd y fynwent. Addawodd y Clerc geisio rhoi yr hysbyseb yn y Blewyn Glas/ Llygad y Dydd, a chael atebion erbyn y cyfarfod nesaf ar yr 11eg o Hydref.

d) **Toiledau Dinas Mawddwy –** roedd y gwyn am gyflwr y to wedi ei ddanfon i Amanda Murray ac roedd copi o e-bost mewnol I law yng nghyngor Gwynedd am y bwriad I osod sinc a tap yn nhoiledau'r dynion a merched. Roedd hefyd yn amgau aroleg asbestos.

e) **Gwaith gan ADRA yn Lawnt y Plas –** roedd cydnabyddiaeth, ond nid oedd ateb llawn I law.

f) **Rheolau Sefydlog Cynghorau Cymuned –** nodwyd y byddai y Cadeirydd a'r Clerc yn trafod erbyn y tro nesaf.

**5. Materion Cynllunio**

Roedd un cais wedi ei ddosbarthu ers y cyfarfod diwethaf, sef;

**NP5/74/L167J –** Trosi capel yn dy a gosod ffenestri to ar edrychiad cefn y to presennol, adeiladu estyniad cefn unllawr newydd, a gosod uned trin carthion – **Capel Tarsus, Cwm Cywarch –** *nid oedd gwrthwynebiad I'r cais.*

Roedd un cais I law, sef;

**NP5/74/510** – gosod twr latis 30 medr o uchder sy'n cynnal 3 antena, 2 dysgl 0.6m, 2 cwpwrdd offer, 1 caban mesura datblygiad ategol iddo gan gynnwys generadur a chompownd sydd wedi ei amgau gan ffensys 1.1m o uchder – **Tir Pentrewern, Dinas Mawddwy.**

*Byddai'r Clerc yn ei ddanfon oddiamgylch pawb pan fyddai manylion llawn ar gael – ac yn gwahodd sylwadau*

Yn y cyswllt hyn, nodwyd y dylid cael llawer mwy o gydweithio ymysg cwmniau er mwyn osgoi cael cymaint o fastiau yn yr ardal.

6. **Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (30.08.23), sef Cyfri Cyfredol £8297.15, Cyfri Claddedigaeth £437.87 Cyfri Cadw £772.03.

b) Cytunwyd i dalu anfoneb gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Gwynedd am 2022/23, sef £246.00.

c) Roedd cais am gymorth gan Celebral Palsy Cymru, a phenderfynwyd peidio cyfrannu.

**7.Gohebiaeth.**

a) Nodwyd ymgynghoriad Rhwydwaith cydraddoldeb sector gyhoeddus Gogledd Cymru – roedd hwn wedi ei ddosbarthu I bawb, ac roedd angen ymateb erbyn 11eg o Fedi

b) Hyfforddiant Cynghorwyr – Nodwyd fanylion cynlluniau hyfforddiant i Gynghorwyr Cymuned gan Un Llais Cymru – roedd y Clerc yn eu dosbarthu i bawb drwy e-bost ar yr 22ain o Orffennaf. Nodwyd y cyrsiau oedd ar gael yn rhad ac am ddim drwy'r bwrsari.

c) Lansiad llwybrau Mawddwy ar Awst 18fed - roedd e-bost wedi ei ddanfon i bawb. Dywedodd Arfon ei fod yn ymddiheuro fod hyn yn fyr rybudd.

d) Darllenwyd gais gan Glerc Cyngor Cymuned Corris i gael cyfarfod i drafod cludo coed allan o'r ardal – a'r posibiliadau o gael ffordd arall na fyddai yn golygu loriau yn mynd trwy Corris, Aberllefenni na Aberangell. Roedd yr e-bost wedi ei ddanfon allan I bawb ymlaenllaw. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nad oedd pwrpas cael cyfarfod. Gwelwyd mai mater I Tilhill a Cyfoeth Naturiol Cymru oedd hyn yn y pendraw, a bod posibilrwydd cludo y coed drwy Corris Uchaf. Nodwyd y byddai eu cludo I Gwm Hafod Oer heibio Cefn Eclo yn golygu pryniant tir, ehangu ffordd, oblygiadau cynllunio ayyb. Nodwyd hefyd na fyddai yn effeithio yn fawr iawn ar drigolion Aberangell beth bynnag.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Cyfeiriwyd at y safle hysbysu llwybrau sydd wedi ei osod yn ddiweddar yn Lawnt y Plas, a gofynnwyd beth yw polisi cyfathrebu Cwmni Nod Glas gyda'r gymuned yn y cyswllt yma.
b) Nodwyd fod 2 garafan static wedi eu lleoli tu allan ty Min y Goedwig yn Aberangell. Gofynnwyd a oedd yna oblygiadau cynllunio gyda hyn, ac addawodd y Clerc gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol.
c) Nodwyd materion sy'n cael eu codi o dro i dro gan Gynghorwyr, a gofynnwyd a fyddai modd cynnwys yr holl faterion sydd heb eu datrys neu sy'n gyfredol i lawr ar yr agenda, a gwneud hyn fel trefn I'r dyfodol.
d) Cyfeiriwyd at yr achosion o bobl yn symud I mewn I'r ardal o'r newydd, ac yn aml eisiau cymryd rhan yn y gymuned. Gofynnwyd a fyddai modd I'r Cyngor Cymuned drefnu bod gair o groeso/ cyflwyniad yn cael ei roi iddynt yn amlinellu beth sydd ar gael iddynt yn y gymuned, rhoi syniad o'r ardal ayyb, cyrsiau dysgu cymraeg o bosib ymysg pethau eraill - ac felly bod hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r gymuned. Dywedodd Cyng Arfon Hughes y byddai yn fodlon arwain ar hyn. Dywedodd Cyng Berwyn Harding fod hyn yn digwydd yn naturiol yn ardal Aberangell. Penderfynwyd y dylid cofnodi hyn, a'i drafod eto y tro nesaf.
e) Nodwyd fod lamp sy'n goleuo y ffordd ger y fynedfa I'r Plas yn y Dinas yn cael ei guddio gan goed sydd ar dir Cwmni Nod Glas, ac felly angen sylw.
f) Nodwyd fod cais I law yn gofyn a fyddai modd clirio peth o'r gwair sydd wedi ei dorri ym mynwent Llanymawddwy. Addawodd y Clerc gael gair gyda Tegid y contractor mor fuan a sy'n gyfleus.
g) Dywedodd y Clerc nad oedd modd iddo fynychu cyfarfod y Cyngor yn nechrau Rhagfyr. Penderfynywd felly trefnu y cyfarfod wythnos yn gynt, sef Nos Fercher 29ain o Dachwedd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 11eg Hydref 2023 , 8.00y.h.**